



Datganiad Gallu Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)

Mae BIAP yn cwmpasu 25% o dirfas Cymru ac mae'n gartref i 5% o boblogaeth Cymru. Mae ganddo safle unigryw yng nghanolbarth Cymru, yn rhannu 160 milltir o ffin â Lloegr ac felly mae ganddo rôl mewn nifer o systemau gofal iechyd. Mae ein preswylwyr yn cael mynediad at driniaeth Ysbyty Cyffredinol Dosbarth (YCD) a Gofal Arbenigol gan amrywiaeth o ddarparwyr ledled Cymru a Lloegr gyda'r gweithgaredd mwyaf, 45% o'n cleifion, yn mynd i Loegr am eu triniaeth gofal eilaidd a thryddol.

Mae'r bwrdd iechyd yn ddarparwr ac yn gomisiynydd gofal iechyd i boblogaeth Powys sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr, ac mae'r bwrdd iechyd wedi dangos hanes cryf o fabwysiadu 'dull system gyfan' o gynllunio gofal, gyda phartneriaid. Mae BIAP yn arweinydd gwasanaeth gofal sylfaenol a gofal cymunedol sy'n darparu mewn lleoliad gwledig iawn. Mae Powys mewn sefyllfa dda i gefnogi'r symudiad o ddarpariaeth gofal eilaidd i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

Mae gan Bowys rwydwaith o ysbytai a chanolfannau cymunedol, timau gofal sylfaenol lleol, ymgynghorwyr ac arbenigwyr sy'n ymweld, sefydliadau gofal cymdeithasol a gwirfoddol sydd i gyd yn cydweithio i ddarparu ystod eang o wasanaethau iechyd yn ein cymunedau lleol.

Ein Strategaeth Iechyd a Gofal 'Powys Iach, Gofalgar' yw'r strategaeth angor ar gyfer iechyd a gofal ym Mhowys fel rhanbarth, ac felly mae'n nodi'r trawsnewidiad sydd o'n blaenau. Mae hyn yn cynnwys cymorth a gofal i boblogaeth gyfan Powys, gan alluogi pobl i ddechrau'n dda, byw'n dda ac i heneiddio'n dda.

Mae Powys yn Fwrdd Iechyd 'Addysgu' ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymchwil. Mae cysylltu Ymchwil, Arloesi a Gwella drwy'r Ysgol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn allweddol i'w roi ar flaen y gad.

Mae BIAP yn darparu'r cyfleusterau canlynol ar draws ein 9 ysbyty cymunedol: -

- Wardiau Cleifion Mewnol
- Mân Anafiadau
- Tu Allan i Oriau
- Canolfan Eni dan arweiniad Bydwraig
- Uned Asesu Ddydd Mamolaeth
- Endosgopi
- Pelydr-X
- Sonograffeg
- Awdioleg Cleifion Allanol
- Dialysis Oedolion a Phlant
- Ffisioleg Anadlol

Mae BIAP hefyd yn cynnig y cyfleusterau canlynol: -

- Mae'r Hazels, Bryntirion, Tŷ Illtyd, Canolfan Adnoddau Iechyd Meddwl Ystradgynlais, Uned Fan Gorau yn Gyfleusterau Iechyd Meddwl Cymunedol.
- Mae Clinig Stryd y Parc yn darparu amrywiaeth o glinigau cymunedol.
- Mae Ynys Y Plant yn darparu ystod o wasanaethau cymunedol i blant a phobl ifanc.
- Mae uned iechyd a gofal 12 gwely Glan Irfon yn darparu gofal ail-alluogi arhosiad byr.
- Mae Canolfan Plant Aberhonddu yn cynnwys clinigau cymunedol i blant a phobl ifanc.
- Mae'r Academi Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd wedi'i lleoli ar safle Ysbyty Bronllys yn cynnwys gofod addysgol dan do ac yn yr awyr agored, ystafell gyfarfod a gofod gweithio hyblyg gyda mynediad at sgriniau rhyngweithiol ar gyfer presenoldeb rhithwir.
- Mae'r academi yn gartref i Fyngalo Magpies sy'n ofod byw wedi'i addasu i ddarparu dysgu efelychiedig mewn lleoliad cymunedol.
- Mae ein llyfrgell gorfforol yn darparu mynediad at wasanaethau llyfrgell o ansawdd uchel sydd ar gael i holl staff BIAP, myfyrwyr, timau gofal sylfaenol Powys, a sefydliadau partner eraill i gefnogi gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwella ledled Powys.

Mae Adran Ymchwil a Datblygu Powys yn cael ei hariannu'n graidd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'r Adran Ymchwil a Datblygu yn cydweithio'n agos â'r Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol i gael cefnogaeth ac arweinyddiaeth.

Er mwyn cefnogi datblygiad parhaus arloesedd a chyfranogiad mewn Ymchwil, mae BIAP yn cefnogi cyllid ar gyfer Arweinydd Ymchwil Glinigol i alluogi Powys i gynnal ymchwil ddiogel ac effeithlon a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Arloesi a Gwella y mae ymchwil yn rhan o'r portffolio hwnnw.

Mae gennym dîm craidd bach o arbenigwyr sy'n cefnogi sefydlu, llywodraethu a sicrhau ansawdd astudiaethau ymchwil.

Mathau o Astudiaethau y mae gan y Sefydliad Allu Mewn			
	Astudiaeth sy'n gweinyddu holiaduron	Astudiaeth ansoddol	ARALL
Fel sefydliad sy'n noddi	✓	✓	
Fel sefydliad sy'n cymryd rhan	✓	✓	
Fel canolfan adnabod cyfranogwyr	✓	✓	

Mae gan Bowys ddiddordeb ym mhob math o ymchwil ac yn parhau i dyfu ein portffolio. Os hoffech drafod ymhellach, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r tîm i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y gall tîm yr Ysgol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ei gynnig Bright.IdeasPowys@wales.nhs.uk.